


Adroddiad ynglŷn â faint o bobl ag anabledd dysgu sydd wedi marw o'r coronafeirws




Cafodd yr wybodaeth hon ei hysgrifennu gan **Sharon Williams** ac **Adam Watkins** o **Welliant Cymru**.

Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o:
**Marwolaethau cysylltiedig â COVID-19 ymysg pobl ag
anableddau dysgu yng Nghymru o'r 1af Mawrth i'r 26ain
Mai 2020 – Crynodeb Byr.**

Cafodd ei ysgrifennu ar: **Ddydd Mercher 29 Gorffennaf
2020**

Y pethau rydyn ni wedi'u dysgu

Cyn y coronafeirws roedden ni'n gwybod bod pobl ag anabledd dysgu:



- yn fwy tebygol o gael salwch y gallen ni fod wedi'i rwystro rhag digwydd, fel ffliw.



- yn marw o'r salwch yn gynt ac yn fwy aml na phobl heb anabledd dysgu.



Rydyn ni'n gwybod bod tua 15,000 o bobl ag anabledd dysgu sy'n byw yng Nghymru wedi ymweld ag ysbyty yn y deng mlynedd diwethaf.




Rhwng mis Mawrth a mis Mai 2020 bu farw tua 30 o bobl ag anabledd dysgu o'r coronafeirws (COVID-19).



Rydyn ni'n meddwl bod hyn tua 20 i 26 yn fwy o farwolaethau nag y buasen ni'n eu gweld mewn 15,000 o bobl heb anabledd dysgu.




Ond mae pobl ag anabledd dysgu yn marw yn gynt ac yn fwy aml o nifer o achosion eraill, nid y coronafeirws (COVID-19) yn unig.



Mae hyn yn meddwl bod y peryg ychwanegol y bydd pobl yn marw o'r coronafeirws rhywbeth yn debyg mewn pobl sydd ag anabledd dysg a phobl sydd heb anabledd dysgu.



Mae'n rhaid i ni ddal ati i weithio i wneud yn siŵr bod pobl ag anabledd dysgu yn cael cystal gofal iechyd.



Mae'n rhaid i ni hefyd ddal ati i'n hamddiffyn ein hunain a phobl eraill rhag y coronafeirws.



Cafodd yr wybodaeth hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.